**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Cynwyd Sant**

**Ysgol Cynwyd Sant**
**Pen-Yr Ysgol**
**Maesteg**
**CF34 9YE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Cynwyd Sant

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cynwyd Sant |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Clare Meredith ac Andrew Norbury |
| Person â gofal | Clare Meredith |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 5 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 5 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:50 a 15:00. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf o dan y cofrestriad hwn. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Manteisio ar gyfleoedd i gryfhau medrau plant yn ystod byrbryd

A2 Ehangu ar gyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg plant yn fwy systematig

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas ag anibyniaeth plant a'r defnydd o strategaethau addysgu sy'n ystyried eu diddordebau, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus dros ben o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn eithriadol o frwdfrydig ac yn ymhyfrydu yn y gweithgareddau eang sydd ar gael iddynt. Mae bron bob un yn ymgartrefu'n syth ar ôl cyrraedd ac yn teimlo'n hynod o ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn hyderus i rannu eu teimladau wrth ddewis os ydynt yn hapus neu'n drist wrth hunangofrestru ac yn esbonio pam yn llwyddiannus. Dangosant hoffter tuag at eu hymarferwyr, er enghraifft wrth chwilio am gysur pan maent yn cwympo ac wrth eu cofleidio ar adegau tawel fel amser stori yn y gornel dawel.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n arbennig o dda gyda'u cyfoedion a'u hymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu perthynas gadarnhaol iawn gyda phlant eraill. Maent yn cymryd eu tro wrth ddefnyddio'r llithren ac yn rhannu beiciau cydbwyso yn hollol naturiol.

Mae bron bob plentyn yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn llawn cyffro gan ddewis gweithgareddau sydd yn eu sbarduno. Maent yn llawn cymhelliant wrth iddynt chwilota am drychfilod o dan ddarnau o goed a chyfri sawl mwydyn a thrychfil arall sy'n cuddio. Mae mwyafrif y plant yn cyfrannu eu syniadau am yr hyn maent yn dymuno ei wneud yn frwdfrydig. Maent yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus, er enghraifft wrth fynegi i ymarferwyr eu bod eisiau mwy o laeth amser byrbryd ac wrth ofyn am chwarae gyda'r clychau ac offerynnau. Mae gan bron bob plentyn fedrau gwrando arbennig o dda, er enghraifft wrth ddilyn rheolau wrth ymgynnull yn hynod o ofalus ac aros eu tro wrth goginio eu cebab ffrwyth o amgylch y tân yn yr ardal allanol.

Mae bron bob plentyn yn canolbwyntio am amser priodol yn ôl eu cam datblygu. Maent yn frwdfrydig iawn wrth chwarae rôl ac yn rhyngweithio'n effeithiol gydag ymarferwyr wrth drafod enwau llysiau a ffrwythau yn y siop. Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n arbennig o dda gyda phlant eraill gan rannu a chymryd eu tro yn aeddfed. Wrth chwarae yn yr ardal cegin fwd a chaffi, maent yn rhannu adnoddau yn annibynnol i greu bwydydd, fel cawl tatws a moron, gyda bwydydd 'go iawn.' Maent yn rhannu adnoddau ac yn cydweithio'n synhwyrol i wneud adeiladwaith hynod o ddychmygus. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu gwydnwch yn arbennig o dda yn ystod eu gweithgareddau. Enghraifft ardderchog o hyn yw'r cydweithio gofalus wrth greu cwrs rhwystr eu hunain. Mae'r rhan fwyaf yn annog a chefnogi ei gilydd yn naturiol trwy ddangos bod angen stopio wrth y goleuadau traffig coch tra'n chwarae ar y beiciau yn yr ardal allanol. Mae bron bob plentyn yn ymfalchïo wrth dderbyn clod a chanmoliaeth ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol yn hynod effeithiol. Maent yn arwain eu chwarae yn aeddfed gan ddewis eu gweithgareddau a chyflawni eu tasgau chwarae rôl a datrys problemau yn llwyddiannus. Enghraifft effeithiol o hyn yw dyfrio blodau drwy helpu eu hunain i ddŵr o'r tapiau. Mae'r rhan fwyaf yn diwallu eu hanghenion personol yn dda iawn trwy wisgo esgidiau, cotiau a ffedogau paent eu hunain gan gadw eu heiddo ar eu bachyn personol. Mae bron bob plentyn yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn hollol annibynnol. Maent yn gwneud hyn drwy olchi

dwylo, arllwys eu llaeth a dŵr eu hunain, a dewis bwydydd yn ystod cyfnodau byrbryd. Mae bron bob un yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd gan ymateb yn bositif tuag at yr ymarferwyr, er enghraifft trwy ddweud diolch am eu ffrwyth a'u diod. Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau corfforol arbennig o gadarn gan gydbwyso'n hyderus ar y blociau ac wrth ddefnyddio beiciau cydbwyso. Maent yn dangos medrau cadarn iawn wrth ddewis a dethol adnoddau crefft ac yn dal pensil a brwsh paent yn gywir.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae perthynas agos iawn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu diddordebau, hoffterau a'u gofynion personol. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol iawn wrth ryngweithio gyda phlant yn sensitif ac yn eu hannog i wneud eu gorau. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyfoethog i blant ddewis a dethol adnoddau eu hunain ac yn gwybod pan nad ydynt yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant yn hynod lwyddiannus trwy gynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n ystyried eu diddordebau a'u hanghenion datblygiadol yn llawn. Maent yn darparu cyfleoedd cyson i'r plant wneud dewisiadau a datrys problemau, ac yn ymyrryd pan maent yn teimlo bod cyfle da i ehangu dealltwriaeth neu greadigrwydd y plant. Mae ymarferwyr yn cyfathrebu'n hynod effeithiol ac yn rhoi clod i blant trwy ddathlu eu hymdrechion yn frwdfrydig a ddiffuant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yna gyfleoedd rheolaidd i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill, fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd.

Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ddatblygu dealltwriaeth am eu hemosiynau yn dda iawn. Maent yn arsylwi ar blant wrth iddynt ddod i mewn yn y bore ac yn cynnig cynhesrwydd a charedigrwydd iddynt wrth ymateb i'w teimladau. Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu'n gyflawn. Elfen gref o'r lleoliad yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd arbennig o dda i ddatblygu medrau annibyniaeth y plant yn ystod gweithgareddau. Maent yn gwneud hyn drwy ystyriaeth ofalus o adnoddau fel argaeledd paent i'r plant lenwi eu potiau eu hunain. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn modelu arferion dyddiol i'r plant er mwyn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob tro'n manteisio ar yr holl gyfleoedd yn ystod amser byrbryd i ymestyn medrau'r plant. Mae ymarferwyr yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn modelu ymddygiadau cadarnhaol yn dda iawn. Maent yn sicrhau, er enghraifft, bod plant yn deall yr angen i fod yn ofalus wrth fynd i lawr y llithren ac yn rhoi clod iddynt am ddilyn y cyfarwyddyd yn dda.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn briodol. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda

rhieni a gwarchodwyr er mwyn datblygu a chefnogi plant gan roi sylw i'w hanghenion datblygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae trefniadau'r lleoliad yn ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn ac yn defnyddio eu gwybodaeth o hyfforddiant perthnasol yn llwyddiannus i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbrydau iachus a maethlon. Maent yn gweithredu systemau glanhau a gwiriadau dyddiol effeithiol. Mae ymarferwyr yn defnyddio asesiadau risg yn effeithlon i nodi risgiau yn yr holl ardaloedd, tra'n cydnabod manteision cymryd risgiau yn ystod gweithgareddau dyddiol. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion manwl o ddigwyddiadau a damweiniau gan sicrhau bod rhieni ac ymarferwyr yn llofnodi i ddangos eu bod yn ymwybodol o beth sydd wedi digwydd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl blant ac yn adnabod eu hanghenion dysgu yn arbennig o dda. Mae'r ffordd y mae'r ymarferwyr yn ennyn diddordeb y plant ac yn eu denu i ddysgu wrth ystyried eu diddordebau ac anghenion unigol yn nodwedd ragorol o'r addysgu. Gwneir hyn drwy arsylwi ar blant yn chwarae a thrwy ymuno ar adegau priodol i ymestyn gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r plant yn gelfydd. Mae ymarferwyr yn manteisio'n ardderchog ar bob cyfle i ddatblygu annibyniaeth plant a'u hannog i ddyfalbarhau wrth wynebu rhwystrau yn eu chwarae. Elfen gref arall o'r addysgu yw pryd mae ymarferwyr eisiau i'r plant ddatblygu medrau penodol; maent yn dechrau gweithgaredd eu hunain ac yn aros i'r plant ddangos diddordeb ac ymuno â'r gweithgaredd.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'u dealltwriaeth o anghenion unigol plant a'u dealltwriaeth gref o ddatblygiad plentyn yn ardderchog i ddarparu profiadau dysgu o safon uchel. Maent yn cydweithio'n agos i gynllunio profiadau dysgu rhagorol. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant yn gynyddol, a chyfleoedd cyfoethog i'r plant arbrofi a dilyn eu llwybrau eu hunain yn eu dysgu. Er enghraifft, wrth glywed adar yn canu yn yr ardal allanol, mae'r plant yn mynd i nôl yr ysbienddrychau o'r ardal natur i ddechrau chwilio am yr adar. Mae ymarferydd yn sylwi ar hyn ac yn datblygu'r gweithgaredd i'r plant ddysgu mwy am yr adar ac yn cynorthwyo'r plentyn i osod bwyd allan ar eu cyfer er mwyn cynnal y diddordeb. Mae hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant wrth iddynt arsylwi ar y byd o'u cwmpas ac yn dysgu sut i'w barchu.

Nodwedd arall arbennig o dda yw sut mae ymarferwyr yn darparu ardaloedd dysgu ysgogol tu fewn a thu allan i annog chwilfrydedd y plant ac i'w galluogi i fod yn hollol annibynnol yn eu chwarae. Cyfoethogir yr ardaloedd hyn yn werthfawr gydag ystod eang o adnoddau i ennyn diddordeb y plant. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu medrau cymdeithasol y plant yn dda iawn. Yn yr ardal gartref, er enghraifft, mae ymarferwyr yn ymddiried yn y plant i ddefnyddio offer go iawn fel cwpanau a thebot ceramig. Maent yn cyd-chwarae â'r plant gan fodelu sut i ddefnyddio'r offer yn gywir.

O ganlyniad, mae'r plant yn efelychu hyn yn eu chwarae eu hunain drwy ddangos parch gwirioneddol at yr adnoddau a'u cyfoedion. Mae darpariaeth hefyd yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygu ystod eang o fedrau gan gynnwys medrau rhifedd a chorfforol y plant wrth iddynt ddefnyddio gefeiliau i godi bwyd o'r plât sy'n troi yng nghanol y bwrdd ac wrth ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'llawn' a 'gwag' wrth arllwys te o'r tebot ar gyfer eu ffrindiau.

Mae gan y lleoliad drefniadau syml ac effeithiol o arsylwi ac asesu cynnydd plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn fedrus i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Gwneir hyn yn bennaf mewn ffordd holistaidd gydag ymarferwyr yn datblygu gwahanol fedrau o fewn yr un gweithgaredd. Enghraifft effeithiol iawn o hyn yw wrth arsylwi ar blant yn darllen llyfr symudiadau corfforol, mae ymarferydd yn ymuno i ddangos iddynt sut i ddilyn y cyfarwyddiadau yn y llyfr. Mae’n cyflwyno geirfa newydd fel 'ymestyn' ac yn eu hannog i efelychu’r symudiadau i wella eu medrau corfforol.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn gadarn. Maent yn cyflwyno geirfa newydd i'r plant yn bwrpasol ac yn ceisio eu hannog i ateb cwestiynau syml yn y Gymraeg. Mae ymarferwyr yn datblygu'r iaith o fewn gweithgareddau yn fwriadus, er enghraifft wrth gyflwyno geiriau newydd wrth arsylwi ar y trychfilod sy’n byw o dan y boncyff. Fodd bynnag, nid oes bob tro ddigon o ffocws ar ehangu a datblygu medrau Cymraeg yr holl blant mewn modd systematig.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu dealltwriaeth ddiwylliannol y plant, er enghraifft drwy'r defnydd o wahanol storïau i ystyried sut mae pobl yn byw mewn rhannau eraill o'r byd o’i gymharu â Chymru. Ceir cyfleoedd addas i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a diwylliannau Cymru, er enghraifft drwy ddathlu canmlwyddiant yr Urdd a dathlu Diwrnod Shwmae.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar, diogel a chyfoethog sy'n sbarduno chwarae a dysgu'r plant yn hynod lwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd ardderchog o arddangosfeydd lliwgar a deniadol ac yn gwerthfawrogi a dathlu gwaith y plant drwy ei arddangos. Mae ardaloedd dysgu a chwarae yn tanio dychymyg plant yn arbennig o dda ac yn eu galluogi i gymryd risgiau, archwilio, darganfod a datrys problemau yn fewnol ac allanol. Mae'r ardaloedd yn cynnig cyfleoedd arbennig o dda i blant fod yn weithredol ac i ddatblygu ystod eang o fedrau; er enghraifft, drwy neidio o un bloc pren i'r llall wedi’i rhifo, mae’r plant yn datblygu eu medrau corfforol a rhifedd yn effeithiol. Mae ardaloedd allanol yn hynod o ddiddorol ac yn darparu dewis cyfoethog o weithgareddau amlsynhwyraidd sy’n ysgogi plant i archwilio a darganfod. Mae arweinwyr yn darparu gardd berlysiau a blodau sy’n rhoi cyfleoedd pwrpasol i blant archwilio natur a defnyddio chwyddwydrau, adnoddau naturiol a chardiau fflach sy’n dangos enwau trychfilod. Labelir adnoddau sydd ar lefel y plant yn glir, sy’n cynnig cyfleoedd da iawn i’r plant ddewis adnoddau’n annibynnol.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus yn ystod amserau mynd i'r tŷ bach. Yn ogystal, mae darpariaeth gelfydd ar gyfer amser tawel yn yr ardaloedd mewnol ac allanol.

Darperir adnoddau o safon dda i roi cyfleoedd difyr i blant ddatblygu dealltwriaeth o bobl yn y gymuned ehangach, er enghraifft doliau, pypedau a storïau sydd yn seiliedig ar fywyd yn Affrica ac adnoddau sydd yn dysgu plant am y flwyddyn newydd Tseiniaidd. Yn ogystal, mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau’n briodol i ddatblygu dealltwriaeth plant o Gymru. Ceir cyfleoedd i blant efelychu baner Cymru yn y gornel greadigol, er enghraifft trwy ddefnyddio paent, creonau, papur, siswrn a glud yn annibynnol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o adnoddau i hybu creadigrwydd plant. Darperir gwisgoedd, mygydau, darnau o ddefnyddiau amlsynhwyraidd er mwyn sbarduno’r plant i efelychu trychfilod. Darperir cerddoriaeth Gymreig a cherddoriaeth ddramatig i ymestyn y dysgu a’r chwarae trwy ddawnsio ac efelychu symudiadau trychfilod cyfarwydd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain a'r plant. Mae ganddynt weledigaeth gref iawn sy’n seiliedig ar greu awyrgylch gartrefol ac ysgogol i'r plant lle cânt gyfleoedd hynod gyfoethog i ddatblygu eu chwilfrydedd a'u hannibyniaeth ac i gymryd risgiau yn eu chwarae. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda rhieni, myfyrwyr ac asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n ardderchog fel tîm i gynnig gofal a chymorth o safon uchel. Maent hefyd yn darparu arweiniad a chefnogaeth fuddiol i fyfyrwyr sy’n hyfforddi yn y lleoliad gyda ffocws cryf ar ddatblygu eu medrau addysgu a gofal o safon uchel. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau'r plant.

Mae arweinwyr yn rheoli ymarferwyr yn gydwybodol drwy eu gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu. Maent yn adnabod cryfderau'r staff yn effeithiol a beth sydd angen arnynt i ddatblygu'n broffesiynol. Mae’r trefniadau goruchwylio yn sicrhau atebolrwydd yr holl ymarferwyr am safon y ddarpariaeth a deilliannau plant yn ogystal â chynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o hyfforddiant perthnasol i ddatblygu medrau ymarferwyr, er enghraifft wrth godi eu hymwybyddiaeth o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Mae'r arweinwyr hefyd yn cymryd perchnogaeth unigol dros eu datblygiad proffesiynol drwy ymchwilio i arfer da fel effaith sgemâu ar ddatblygiad plant er mwyn deall sut i symud plant ymlaen yn eu dysgu. Mae hyn yn cael effaith arbennig o dda ar eu dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn a sut i ddatblygu’u medrau a’u gwneud yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol yn eu chwarae.

Mae gan arweinwyr drefniadau syml ac effeithiol ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwella. Maent yn gwneud defnydd gwerthfawr o adborth athrawon ymgynghorol yr awdurdod addysg lleol a rhieni fel rhan o'r gweithdrefnau hyn. Wrth wraidd y gweithdrefnau yw'r defnydd o arsylwadau parhaus i adnabod beth sy'n gweithio'n dda a sut maent yn gallu addasu a gwella’r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Er enghraifft, maent yn ymateb i arsylwadau ar y plant yn mwynhau’r offer adeiladu trwy brynu adnoddau penodol newydd i gyfoethogi’r ddarpariaeth a datblygu eu medrau a'u gallu i ddatrys problemau drwy ddyfalbarhad.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o unrhyw grantiau i wella profiadau ar gyfer plant. Yn ddiweddar, maent wedi buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau newydd tu fewn ac yn yr ardal allanol sydd yn arwain at ddarparu mwy o brofiadau dilys i'r

plant i ymchwilio ac arbrofi. Mae'r gwariant hwn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygu lles a medrau plant.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth ardderchog gyda rhieni. Yn ystod pandemig Covid-19, roedd un arweinydd yn darparu sesiynau dysgu i blant dros gyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn rhoi syniadau i rieni am sut i helpu'u plant yn ogystal â sicrhau bod y plant yn clywed storïau yn y Gymraeg. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i hysbysu rhieni am ei gwasanaeth ac i gynnig arweiniad yn ôl yr angen. Mae partneriaeth agos yn bodoli rhwng y lleoliad a'r ysgol sydd ar yr un safle. Mae ymweliadau gan staff yr ysgol yn golygu bod plant yn trosglwyddo'n esmwyth i'r ysgol gynradd wrth iddynt ddechrau yno.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/07/2022